sportwales
chwaraeoncymru

# Prosiect Alpha Data a Dirnadaeth Chwaraeon Cymru

## Dogfen Gwahoddiad i Dendro

23.01.2026

# Gwahoddiad i Dendro ar gyfer darparu cefnogaeth i Brosiect Alpha Data a Dirnadaeth Chwaraeon Cymru

## Cynnwys


Geirfa o Dermau .... 3

1. Cefndir .... 4
2. Trosolwg o'r Gofyniad .... 4
3. Cyflwyno Ymatebion / Amserlen .... 5
4. Manylion Cyfrinachol .... 6
5. Treuliau a Cholledion yn y Tendr .... 6
6. Derbyn Tendrau .... 6
7. Ymrwymiad Cytundebol y Cais .... 6
8. Amodau'r Tendr .... 6
9. Newidiadau i'r Fanyleb a'r Gofynion .... 7
10. Telerau Talu .... 7
11. Diogelwch .... 8
12. Yr Iaith Gymraeg .... 8
13. Manyleb a Chanlyniadau .... 8
14. Cefnogaeth dechnegol wrth ddatblygu a mireinio'r cyflenwad data .... 10
15. Cefnogaeth i ddeall diwylliant data Chwaraeon Cymru, ei barodrwydd a'i allu i fabwysiadu a gweithredu'r cyflenwad a'r ffyrdd cysylltiedig o weithio .... 15
16. Gweithredu a Chroesawu .... 18
17. Y Broses Asesu .... 20
18. Gofynion .... 25
19. Rhestr wirio o ddogfennau ymateb i'w dychwelyd .... 30

# Geirfa o Dermau

**Cyflenwad Data:** Proses strwythuredig, o'r dechrau i'r diwedd ar gyfer casglu, derbyn, glanhau, trawsnewid, storio a dadansoddi data fel bod modd eu defnyddio'n ddibynadwy ar gyfer adrodd, dirnadaeth a gwneud penderfyniadau.

**Buddsoddiad Cymunedol:** Cyllid, adnoddau neu gefnogaeth a ddarperir gan Chwaraeon Cymru yn uniongyrchol i gymunedau lleol, clybiau neu sefydliadau ar lawr gwlad i gynyddu cyfranogiad, cynhwysiant ac ymwneud hirdymor mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol.

**Buddsoddiad Partner:** Cyllid, adnoddau neu gefnogaeth sy'n cael eu dosbarthu gan Chwaraeon Cymru i sefydliadau partner allanol (e.e. cyrff rheoli, partneriaethau chwaraeon rhanbarthol, a phartneriaid cyflawni, i gyflawni canlyniadau y cytunwyd arnynt sy'n cyd-fynd â blaenoriaethau Chwaraeon Cymru.

**Darganfod:** Cam cynnar sy'n canolbwyntio ar ddeall y gofod problem, anghenion defnyddwyr, argaeledd data, cyfyngiadau, a risgiau, ac ar ddiffinio cwestiynau blaenoriaeth, achosion defnydd, a meini prawf llwyddiant cyn i ddatrysiadau gael eu dylunio neu eu hadeiladu.

**Alpha:** Cam gyda chyfyngiad amser sy'n canolbwyntio ar brofi a dilysu datrysiadau posibl drwy brototeipiau neu beilot ar raddfa fechan, gan ddysgu'n gyflym beth sy'n gweithio a beth sydd ddim, cyn ymrwymo i gyflawni neu raddio'n llawn.

**Prawf o Gysyniad [PoG]:** Arddangosfa ymarferol, gyfyngedig sydd wedi'i chynllunio i brofi a all dull, gallu neu gyflenwad arfaethedig weithio'n ymarferol ar gyfer achos defnydd y cytunwyd arno, ac i gynhyrchu tystiolaeth fel sail i benderfyniadau yn y dyfodol, yn hytrach na chyflwyno datrysiad cwbl weithredol.

# 1. Cefndir

1.1 Sefydlwyd Cyngor Chwaraeon Cymru (sy’n cael ei adnabod oddi wrth ei enw masnach, sef Chwaraeon Cymru) drwy Siarter Frenhinol dyddiedig 4 Chwefror 1972. Mae'n cael ei ariannu gan gyllid blynyddol gan Lywodraeth Cymru ac o incwm sy’n cael ei gynhyrchu o'i weithgareddau ei hun. Dyma brif gynghorydd Llywodraeth Cymru ar faterion chwaraeon ac mae’n gyfrifol am ddosbarthu arian Llywodraeth Cymru a’r Loteri Genedlaethol i chwaraeon yng Nghymru.

1.2 Chwaraeon Cymru yw'r sefydliad cenedlaethol sy'n gyfrifol am ddatblygu a hyrwyddo chwaraeon a gweithgarwch corfforol yng Nghymru ar lefelau cymunedol ac elitaidd. Mae hefyd yn gyfrifol am ddosbarthu symiau sylweddol o gyllid grant ar draws portffolio eang o weithgarwch chwaraeon yng Nghymru.

1.3 Mae Chwaraeon Cymru yn un o 44 o gyrff sector cyhoeddus yng Nghymru sy'n ddarostyngedig i *Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015* Llywodraeth Cymru. Yn unol â hynny, mae Chwaraeon Cymru wedi datblygu ei nodau llesiant ei hun. Mae Archwilio Cymru yn gyfrifol am archwilio'r sefydliadau hyn i asesu i ba raddau y mae'r nodau llesiant a'r pum ffordd o weithio y mae'r Ddeddf yn eu hyrwyddo wedi cael eu cyflawni.

1.4 Ein nod ni yw nid yn unig gwella lefel y cyfranogiad chwaraeon ar lawr gwlad ond hefyd rhoi'r gefnogaeth sydd ei hangen ar ein hathletwyr uchelgeisiol ni i gystadlu'n llwyddiannus ar lwyfan y byd.

1.5 Ar hyn o bryd mae Chwaraeon Cymru yn gweithredu dros bedwar lleoliad yng Nghymru; mae'r safleoedd yn cynnwys ein dwy Ganolfan Genedlaethol, yng Ngerddi Sophia, Caerdydd a Phlas Menai, Caernarfon (mewn partneriaeth â Parkwood a Legacy Leisure); a swyddfeydd lloeren ar Lannau Dyfrdwy ac yn Llanelli.

# 2. Trosolwg o’r Gofyniad

2.1 Mae'r ddogfen hon yn ymwneud â chaffael cefnogaeth ar gyfer cam Alffa prosiect Data a Dirnadaeth Chwaraeon Cymru. Mae cam Alffa yn canolbwyntio ar ddatblygu a phrofi cyflenwad data sy'n caniatáu i ddata gael eu derbyn, eu glanhau, eu storio, eu dwyn at ei gilydd ac adrodd arnynt.

2.2 Nod y caffael yw sicrhau arbenigedd a fydd yn cyflawni’r canlynol:

2.2.1 Darparu cefnogaeth dechnegol wrth ddatblygu a mireinio'r cyflenwad data, a

2.2.2 Darparu cefnogaeth wrth ddeall diwylliant data'r sefydliad, ei barodrwydd, a'i allu i fabwysiadu a gweithredu'r cyflenwad a'r ffyrdd cysylltiedig o weithio.

2.3 Rhaid i'r gwasanaethau sy'n cael eu caffael fod yn ymarferol, yn canolbwyntio ar y defnyddiwr, ac yn hygyrch. Dylent nid yn unig sicrhau bod y datrysiad

technegol yn gadarn ac yn effeithiol ond hefyd helpu Chwaraeon Cymru i asesu a chryfhau'r amodau sefydliadol sy'n ofynnol ar gyfer mabwysiadu cynaliadwy. Mae hyn yn cynnwys deall pobl, prosesau, llywodraethu, a diwylliant o amgylch defnyddio data, yn ogystal â beth fyddai ei angen i raddio'r datrysiad.

2.4 Rhaid i'r cyflenwr ddangos y gall gyflawni'r ddau ofyniad a amlinellir yn 2.2 a 2.3 uchod.

# 3. Cyflwyno Ymatebion / Amserlen

3.1 Mae'r amserlen gaffael arfaethedig wedi'i nodi isod. Sylwer mai syniad yn unig yw'r dyddiadau sydd wedi'u nodi ac mae Chwaraeon Cymru yn cadw'r hawl i'w diwygio ar unrhyw adeg yn ystod y broses heb atebolrwydd

| Gweithgarwch | Dyddiad | Cyfrifol |
|---|---|---|
| Cyhoeddi'r Gwahoddiad i Dendro (GID) | 23ain Ionawr 2026 | Chwaraeon Cymru |
| Dyddiad cau ar gyfer Cwestiynau Eglurhad | 16eg Chwefror 2026 | Tendrwr |
| Dyddiad cau ar gyfer Cyflwyno Tendr | 22ain Chwefror 2026 | Tendrwr |
| Sgorio ac Asesu'r GID | 23ain Chwefror 2026 i 19eg Mawrth 2026 | Chwaraeon Cymru |
| Hysbysiad o Ganlyniad / Cyhoeddi Hysbysiad(au) Dyfarnu Contract | 20fed Mawrth 2026 | Chwaraeon Cymru |
| Cyfnod Segur | 20fed Mawrth 2026 i 31ain Mawrth 2026 | Chwaraeon Cymru |
| Dechrau'r Contract(au) | 1af Ebrill 2026 | Chwaraeon Cymru / Cyflenwr |

3.2 Rhaid cyflwyno cwestiynau eglurhad (ymholiadau) mewn perthynas â'r tendr drwy flwch post GwerthwchiGymru. Y dyddiad cau ar gyfer cwestiynau eglurhad mewn perthynas â'r tendr yw 16eg Chwefror 2026.

3.3 Rhaid cyflwyno'r cyflwyniadau Tendr ar ffurf electronig i'r cyfleuster Blwch Post ar gwerthwchigymru.llyw.cymru erbyn 22ain Chwefror 2026. Ni fydd ymatebion a dderbynnir ar ôl y dyddiad cau yn cael eu hystyried.

3.4 Mae canllaw defnyddiwr y Blwch Post Cyflenwyr ar gael o dan yr adran 'Help a Chefnogaeth' ar wefan GwerthwchiGymru.

3.5 Os bydd tendrwyr yn cael unrhyw broblemau wrth gyflwyno cwestiynau eglurhad, defnyddiwch swyddogaeth cymorth GwerthwchiGymru.

3.6 Gellir derbyn ymatebion yn y Gymraeg neu'r Saesneg. Ni fydd ymatebion a gyflwynir yn y Gymraeg yn cael eu trin yn llai ffafriol na'r rhai a gyflwynir yn Saesneg. Bydd yr holl ohebiaeth / cyfathrebu dilynol yn yr iaith y cyflwynwyd yr ymateb ynddi.

# 4. Manylion Cyfrinachol

4.1 Bydd y tendrwr (os yw ei gyflwyniad yn cael ei dderbyn ai peidio) a phawb arall sy'n derbyn y ddogfen Gwahoddiad i Dendro (os ydynt yn cyflwyno ymateb tendr ai peidio) yn trin manylion y ddogfen hon fel manylion preifat a chyfrinachol.

4.2 Bydd unrhyw gyflwyniad a dderbynnir mewn ymateb i'r Gwahoddiad i Dendro hwn yn cael ei drin yn yr un modd gan Chwaraeon Cymru, ac eithrio lle gofynnir amdano i gydymffurfio â Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.

# 5. Treuliau a Cholledion yn y Tendr

5.1 Rhaid i dendrwyr ysgwyddo'r holl gostau sy'n gysylltiedig â pharatoi a chyflwyno eu cyflwyniad tendr ac unrhyw gostau pellach a achosir cyn dyfarnu'r contract.

5.2 Ni fydd Chwaraeon Cymru yn gyfrifol am dreuliau na cholledion a all gael eu hachosi gan dendrwyr wrth baratoi a chyflwyno eu hymateb i'r tendr ac wrth iddynt gymryd rhan yn y broses gaffael, heb ystyried y dull o gynnal y broses dendro neu'r canlyniad.

5.3 Mae Chwaraeon Cymru yn cadw'r hawl i derfynu'r broses dendro ar unrhyw adeg neu i ddyfarnu, neu beidio â dyfarnu, y cytundeb cyfan neu ran ohono, ac ni fydd yn atebol am unrhyw gostau a achosir gan y tendrwr o ganlyniad i'r weithred hon.

# 6. Derbyn Tendrau

6.1 Bydd Chwaraeon Cymru yn adolygu'r holl dendrau sy'n cael eu derbyn / uwchlwytho drwy borthol GwerthwchiGymru erbyn y dyddiad cau.

# 7. Ymrwymiad Cytundebol y Cais

7.1 Ac eithrio camgymeriad amlwg, neu fel y cytunir yn benodol fel arall gan Chwaraeon Cymru a'r tendrwr, ystyrir bod cynnwys y cynigion a gyflwynir yn rhwymol ar ran y tendrwr ac yn agored i'w derbyn gan Chwaraeon Cymru.

7.2 Cyn cyflwyno eu cynnig, mae tendrwyr yn gyfrifol am sicrhau bod eu staff, a staff unrhyw is-gyflenwyr, yn gwbl ymwybodol o'r holl ofynion technegol, masnachol a chyfreithiol sy'n ymwneud â'r caffael hwn.

7.3 Dylai tendr fod yn ddilys i'w dderbyn am gyfnod o ddim llai na 120 diwrnod o ddyddiad y cyflwyniad.

# 8. Amodau'r Tendr

8.1 Drwy gyflwyno tendr, rydych yn cydnabod ac yn cytuno'n llawn i'r amodau canlynol:

8.2 Mae cynnwys a gofynion y dogfennau tendro wedi cael eu darllen, eu deall a, lle bo angen, cydymffurfiwyd â hwy.

8.3 Mae hwn yn dendr dilys, ac nid yw'r prisiau a / neu'r symiau a nodir yma wedi'u haddasu ac ni fu unrhyw ddylanwad annheg arnynt oherwydd unrhyw drefniadau neu gytundebau gydag unrhyw drydydd parti.

8.4 Nid ydych, ac ni fyddwch, cyn dyfarnu unrhyw gontract, yn cyfathrebu ag eraill ac eithrio'r sefydliad tendro ynghylch y swm a dendrwyd neu fanylion penodol y swm, ac eithrio pan fo angen datgelu'r wybodaeth hon i gael gwybodaeth i gefnogi eich cais.

8.5 Nid ydych ac ni fyddwch yn gwneud unrhyw drefniant neu gytundeb a allai arwain at eraill yn peidio â chyflwyno tendr neu ddylanwadu ar y swm a gyflwynir gan eraill.

8.6 Nid ydych ac ni fyddwch yn cynnig unrhyw gymhelliant, yn ariannol neu fel arall, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol i unrhyw berson neu drydydd parti mewn unrhyw ffordd i ddylanwadu ar unrhyw dendr a gyflwynir neu ran ohono.

8.7 Rydych drwy hyn yn cynnig ymrwymo i gontract gyda Chwaraeon Cymru yn unol â'r gofynion yn y tendr hwn ac ar gyfer y costau a'r taliadau sydd wedi'u cynnwys yn eich ymateb tendro.

8.8 Mae unrhyw a phob mater, boed yn dechnegol, yn weithredol, yn fasnachol neu'n gytundebol, lle nad yw eich ymateb i'r tendr yn cydymffurfio, naill ai'n llawn neu'n rhannol, â gofynion y tendr hwn, wedi'u diffinio'n glir mewn dogfen o dan y pennawd 'Cymwysterau Tendro' a'i chyflwyno fel rhan o'ch ymateb tendro.

# *9. Newidiadau i'r Fanyleb a'r Gofynion*

9.1 Mae'r Fanyleb (adran 13) a'r Gofynion (adran 16) yn nodi gofynion Chwaraeon Cymru yn llawn. Mae'n bosibl, yn ystod oes unrhyw gytundeb a weithredir, y bydd newidiadau'n codi i'r fanyleb, y gwasanaeth neu ofynion eraill.

9.2 Bydd newidiadau i'r Fanyleb yn cael eu gweithredu drwy gyhoeddi diwygiadau ysgrifenedig i bawb sy'n cael eu heffeithio gan y newidiadau. Chwaraeon Cymru sydd â'r hawl unigryw i weithredu newidiadau yn y modd hwn.

# *10. Telerau Talu*

10.1 Yn unol â Deddf Caffael 2023, gwneir taliad o fewn 30 diwrnod i dderbyn anfoneb ddilys, gan ddyfynnu Gorchymyn Prynu dilys, gydag anfonebau i'w cyflwyno yn unol â'r taliad a drefnwyd a gytunwyd cyn neu ar adeg dyfarnu'r contract.

10.2 Er mwyn i anfoneb gael ei hystyried yn ddilys ac yn dderbyniol i'w thalu, rhaid ei hanfon yn electronig (h.y. ar e-bost) a rhaid iddi gynnwys y wybodaeth ganlynol o leiaf:

- Enw'r Cyflenwr;
- Disgrifiad o'r nwyddau, y dyddiad cyflawni, y gwasanaethau a / neu'r gwaith a gyflenwyd i Chwaraeon Cymru;
- Y swm y gofynnir amdano; a

- Cyfeirnod / rhif anfoneb unigryw.

10.3 Rhaid cyflwyno pob anfoneb i finance@sport.wales.

10.4 Os ystyrir bod anfoneb yn annilys a / neu os oes anghydfod ynghylch y swm sy'n daladwy, hysbysir y Cyflenwr cyn gynted ag y bo'n ymarferol a bydd y telerau talu 30 diwrnod yn cael eu gohirio nes bod yr holl ymholiadau wedi'u datrys.

# 11. Diogelwch

11.1 Rhaid i'r Cyflenwr llwyddiannus gadw at rwymedigaethau "Prosesydd Data" fel y'u nodir yn Neddf Diogelu Data 2018 (DPA 2018) ac Erthygl 28 GDPR 679/2016 yr UE. Yn unol â Phennod 2 Deddf Diogelu Data 2018, mae'r Cyflenwr yn gyfrifol am sicrhau bod yr holl ddata personol a brosesir wrth ddarparu gwasanaethau, nwyddau neu waith o dan y cytundeb hwn yn cael eu trin yn unol â'r safonau a nodir ym Mhennod IV.

# 12. Yr Iaith Gymraeg

12.1 Bydd angen i'r Cyflenwr llwyddiannus sicrhau bod y gwasanaethau a ddarperir drwy'r contract hwn yn cydymffurfio ag anghenion iaith Gymraeg Chwaraeon Cymru.

12.2 Fel corff sector cyhoeddus, mae gan Chwaraeon Cymru ddyletswydd i gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg Llywodraeth Cymru. O ran grantiau a pholisi buddsoddi Chwaraeon Cymru, mae hyn yn cynnwys darparu'r opsiwn i'r ymgeisydd gynnal y broses ymgeisio lawn drwy gyfrwng yr iaith Gymraeg ac i'r cyfathrebu dilynol fod yn yr iaith o ddewis yr ymgeisydd.

12.3 Cyfeirir ymhellach at ofynion dwyieithog Chwaraeon Cymru yn nes ymlaen yn y ddogfen hon.

# 13. Manyleb a Chanlyniadau

13.1 Fel y nodir yn adran 2 o'r ddogfen hon, mae'r caffael hwn yn ymwneud â chefnogaeth ar gyfer cam Alpha prosiect Data a Dirnadaeth Chwaraeon Cymru. Mae'r cam Alpha yn canolbwyntio ar ddatblygu a phrofi cyflenwad data sy'n galluogi data i gael eu derbyn, eu glanhau, eu storio, eu cyfuno ac adrodd arnynt. Mae'r cam Alpha wedi'i fframio fel prawf o gysyniad [PoG], gyda'r bwriad o brofi a dilysu dulliau, meithrin dealltwriaeth o'r hyn sydd ei angen i raddfa, a bod yn sail i gamau yn y dyfodol.

13.2 Ar gyfer y cam Alpha, mae Chwaraeon Cymru yn disgwyl i gyflenwyr gynnig pensaernïaeth sy'n blaenoriaethu symlrwydd, cynaliadwyedd a pherchnogaeth fewnol, dros soffistigedigrwydd neu optimeiddio technegol uchafswm. Er bod gan Chwaraeon Cymru stad Microsoft Azure bresennol - gydag ystod o drwyddedau yn dibynnu ar swyddogaethau - nid ydym wedi dewis ymlaen llaw naill ai un platfform dadansoddeg cyfunol, na phensaernïaeth Azure lefel cydran bwrpasol, lawn. Felly, dylai'r cyflenwyr wneud y canlynol:

13.2..1 Disgrifio’n glir y bensaernïaeth arfaethedig, gan nodi'r elfennau allweddol, llifau data, dewisiadau offer, a sut byddai'r bensaernïaeth yn gweithredu yn ymarferol.

13.2..2 Egluro’n glir y rhesymeg dros y dull arfaethedig, gan gynnwys pam dewiswyd y bensaernïaeth hon, wedyn y manteision mae'n eu darparu, a'r cyfaddawdau allweddol a wnaed mewn perthynas â symlrwydd, cynaliadwyedd, graddadwyedd, cost a pherchnogaeth fewnol.

13.2..3 Nodi’n glir a mynd i'r afael â'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r dull arfaethedig, gan gynnwys risgiau technegol, gweithredol a sefydliadol, ac egluro sut bydd y rhain yn cael eu lliniaru, eu rheoli a'u monitro.

13.3 Mae'r caffael yn cynnwys dwy agwedd yr un mor bwysig a chyd-ddibynnol:

13.2.1 Cefnogaeth dechnegol wrth ddatblygu a mireinio'r cyflenwad data.

13.2.2 Cefnogaeth i ddeall diwylliant data Chwaraeon Cymru, ei barodrwydd a’i allu i fabwysiadu a gweithredu'r cyflenwad a'r ffyrdd cysylltiedig o weithio

13.4 Disgwylir i'r prawf o gysyniad (PoG) alluogi Chwaraeon Cymru i ateb nifer bach o gwestiynau sy'n gysylltiedig â buddsoddiad gwerth uchel, wedi'u diffinio'n glir, sydd ar hyn o bryd angen ymdrech faniwal sylweddol i'w hateb ac a fyddai'n elwa o driongli ffynonellau data niferus i ddarparu sylfaen dystiolaeth fwy cyflawn a chrwn.

13.5 Bydd y PoG yn canolbwyntio ar ddangos sut gall mynediad gwell at ddata strwythuredig, dibynadwy wella ansawdd, cyflymder a hyder penderfyniadau sy'n gysylltiedig â buddsoddi yn sylweddol.

13.6 Bydd llwyddiant yn cael ei farnu yn ôl gallu'r sefydliad i ddefnyddio allbynnau'r PoG mewn cyd-destunau gwneud penderfyniadau real, yn hytrach na thrwy gyflwyno elfennau technegol yn unig.

13.7 Ar gyfer pob canlyniad isod, rhaid i gyflenwyr gynnig sut bydd mesurau sylfaen yn cael eu sefydlu'n gynnar yn Alpha, a sut bydd gwelliant mesuradwy’n cael ei ddangos erbyn diwedd y PoG. Er y gall cyflenwyr gynnig mesurau a dangosyddion priodol ar gyfer pob canlyniad, bydd metrigau llwyddiant terfynol, llinellau sylfaen a gofynion tystiolaeth yn cael eu cytuno gyda Chwaraeon Cymru yn ystod Alpha a byddant yn rhan o feini prawf llwyddiant y PoG.

13.8 Dyma’r canlyniadau sydd wedi’u bwriadu ar gyfer y PoG:

13.8..1 **Canlyniad 1: Gwell hyder mewn gwneud penderfyniadau buddsoddi.** Mae gan bobl sy’n gwneud penderfyniadau fwy o ymddiriedaeth yn y dystiolaeth a gyflwynir, gan gynnwys eglurder ar ansawdd data, cyfyngiadau a rhagdybiaethau. Yn cael ei ddangos gan fesurau llinell

sylfaen a diwedd PoG y cytunwyd arnynt fel y lefelau hyder sy’n cael eu datgan gan bobl sy’n gwneud penderfyniadau, eglurder tarddiad a chyfyngiadau data, a'r defnydd penodol o ddirnadaeth PoG mewn o leiaf un fforwm gwneud penderfyniadau byw.

13.8..2 **Canlyniad 2: Llai o amser i ateb cwestiynau buddsoddi blaenoriaeth.** Mae'r amser a'r ymdrech sydd eu hangen i ymateb i gwestiynau blaenoriaeth y cytunwyd arnynt wedi'i leihau'n sylweddol o gymharu â'r sefyllfa bresennol. Yn cael ei ddangos gan linell sylfaen y cytunwyd arni o ran yr amser a'r ymdrech gyfredol sydd eu hangen i ateb y cwestiynau blaenoriaeth y cytunwyd arnynt, a gostyngiad mesuradwy mewn casglu data maniwal, cysoni, neu amser troi erbyn diwedd y PoG.

13.8..3 **Canlyniad 3: Dealltwriaeth a rennir o berchnogaeth ac ansawdd data.** Mae eglurder sefydliadol gwell ar berchnogaeth data, atebolrwydd ac ansawdd y setiau data a ddefnyddir o fewn y PoG. Yn cael ei ddangos gan eglurder llinell sylfaen y cytunwyd arno ar berchnogaeth ac ansawdd y data cyfredol, a chynhyrchu perchnogaeth, ystyriaethau ansawdd a safonau wedi'u dogfennu a'u dilysu ar gyfer pob set ddata a ddefnyddir o fewn y PoG.

13.8..4 **Canlyniad 4: Cynyddu'r gallu mewnol i ymestyn y cyflenwad.** Mae gan dimau mewnol y wybodaeth, yr hyder a'r ddogfennaeth sydd eu hangen i gynnal ac ymestyn y cyflenwad y tu hwnt i'r PoG. Yn cael ei ddangos gan asesiad gallu llinell sylfaen y cytunwyd arno a gallu timau mewnol, erbyn diwedd y PoG, i weithredu, addasu ac ymestyn elfennau pendant y cyflenwad gan ddefnyddio dogfennaeth a throsglwyddo gwybodaeth a ddarperir, gyda chefnogaeth isafswm gan y cyflenwyr.

13.9 Disgwylir i'r contract ddechrau gyda mynegiant clir o'r canlyniadau a fwriedir, wedi'u diffinio ar y cyd yn ystod Alpha a'u cytuno gan Chwaraeon Cymru, gyda Chwaraeon Cymru yn diffinio'r allbynnau blaenoriaeth (e.e. y wybodaeth ddiriaethol i'w chynhyrchu drwy'r PoG), a chyflenwyr yn gweithio'n ôl i ddiffinio'r elfennau i’w cyflawni a'r gweithgareddau sy'n ofynnol i wireddu'r canlyniadau hynny.

13.10 Mae'r adrannau canlynol yn disgrifio sut disgwylir i gyflenwyr gyfrannu at y canlyniadau hyn drwy agweddau technegol a diwylliannol cam Alpha.

# 14. Cefnogaeth dechnegol wrth ddatblygu a mireinio'r cyflenwad data

14.1 Mae'r adran hon yn nodi'r gofynion ar gyfer agwedd dechnegol y cam Alpha ac yn disgrifio sut disgwylir i gyflenwyr gyfrannu at y canlyniadau Alpha a nodir yn Adran 13.

14.2 Y nod yw dylunio, adeiladu a phrofi cyflenwad data prawf o gysyniad (PoG) graddadwy sy'n dangos sut gall Chwaraeon Cymru gasglu, rheoli, cyfuno a defnyddio data yn fwy effeithiol i gefnogi gwneud penderfyniadau a strategaeth sefydliadol.

14.3 Bydd y PoG yn dangos sut gellir mewnbynnu data crai o sawl ffynhonnell i amgylchedd data diogel, canolog, eu prosesu i wella cysondeb a defnyddioldeb, a'u trawsnewid yn setiau data strwythuredig, sy'n barod i'w dadansoddi. Bydd hefyd yn dangos sut gellir defnyddio'r setiau data hyn i gynhyrchu gwybodaeth y mae posib gweithredu yn ei chylch drwy adrodd a delweddu ar gyfer achos defnydd pendant.

14.4 Dylai'r PoG ddangos yn glir y potensial ar gyfer graddio i blatfform data a dirnadaeth ehangach, gan gynnwys y goblygiadau ar gyfer pensaernïaeth, llywodraethu, gallu ac adnoddau.

14.5 Ar gyfer Alpha, mae Chwaraeon Cymru yn disgwyl i ansawdd a llinach data gael sylw mewn ffordd gymesur ond amlwg. Fel isafswm, dylai'r cyflenwyr gyflawni'r canlynol:

*• Diffinio gwiriadau cyflawnrwydd a dilysrwydd sylfaenol ar gyfer pob set ddata PoG*

*• Gwneud trawsnewidiadau data yn olrheiniadwy o'r ffynhonnell i'r allbwn (e.e. drwy lifau, diagramau neu offer wedi'u dogfennu)*

*• Disgrifio sut mae problemau ansawdd data'n cael eu hamlygu i ddefnyddwyr adroddiadau, nid yn gudd o fewn y cyflenwad*

14.6 Bydd y cyflenwr a benodir yn darparu cefnogaeth dechnegol arbenigol, gan gydweithredu â thimau mewnol Chwaraeon Cymru a chefnogi trosglwyddo gwybodaeth ac uwchsgilio yn weithredol, er mwyn cyflawni'r canlynol.

14.6..1 Derbyn setiau data blaenoriaeth i amgylchedd canolog:

- Gweithio gyda Chwaraeon Cymru i ddilysu a mireinio'r setiau data blaenoriaeth a nodwyd yn ystod y darganfyddiad, gan sicrhau eu bod yn briodol ar gyfer y PoG ac yn cyd-fynd â'r achos defnydd a'r canlyniadau y cytunwyd arnynt.

- Sefydlu mewnlifiad data diogel, awtomataidd [lle bo hynny'n briodol] i amgylchedd data canolog, gan ddangos sut gellir dwyn data o wahanol fformatau a ffynonellau (e.e. taenlenni, cronfeydd data, APIs trydydd parti, rhestrau SharePoint) at ei gilydd.

- Dilysu ac adeiladu ar ddealltwriaeth bresennol Chwaraeon Cymru o bob set ddata (gan gynnwys fformat, strwythur, cyfaint, ansawdd, problemau hysbys, a chyfyngiadau mynediad), yn hytrach nag ailddarganfod o'r egwyddorion cyntaf.

- Sefydlu a dogfennu metadata sylfaenol, perchnogaeth data, a rheolau mynediad ar gyfer pob set ddata PoG.

- Dangos sut gellir ymgorffori llywodraethu data cymesur yn y cyflenwad, a lle bo modd ei gefnogi drwy awtomeiddio yn hytrach na phrosesau maniwal.

- Ystyried gofynion diogelwch a chydymffurfiaeth data, gan gynnwys mesurau rheoli mynediad, dosbarthu data, a chadw.

- Sicrhau bod y dull yn gynaliadwy, gan osgoi dibynnu'n ddiangen ar ddatrysiadau pwrpasol neu berchnogol, a galluogi estyniad yn y dyfodol gan staff Chwaraeon Cymru.

- Archwilio rôl bosibl deallusrwydd artiffisial a dysgu peirianyddol yn y dyfodol (e.e. paratoi data awtomataidd, canfod anomaleddau, dirnadaeth ragfynegol), gan gynnwys mapio lefel uchel o ble y gellid cymhwyso galluoedd o'r fath ar draws y cyflenwad a sut byddai'r bensaernïaeth arfaethedig yn galluogi eu defnydd yn y dyfodol lle bo hynny'n briodol.

14.6..2 **Glanhau, trawsnewid a modelu data ar gyfer dadansoddi:**

- Gweithredu arferion paratoi data i fynd i'r afael â phroblemau data cyffredin fel gwerthoedd coll, fformatau anghyson, dyblygu, ac allanolion.

- Trawsnewid data crai yn setiau data strwythuredig, sy'n barod i'w dadansoddi gan ddefnyddio offer priodol o fewn ecosystem Azure neu gyfatebol.

- Datblygu modelau data cysyniadol, rhesymegol a ffisegol sy'n cyd-fynd â'r canlyniadau a'r achos defnydd y cytunwyd arnynt, gan ddangos sut mae sicrhau dirnadaeth o'r data sylfaenol.

- Datblygu a dogfennu rheolau safoni data y gellir eu hailddefnyddio (e.e., confensiynau enwi, fformatau dyddiad, data cyfeirio) y gellir eu cymhwyso i setiau data yn y dyfodol.

- Gwneud problemau, rhagdybiaethau, cyfyngiadau, a chyfaddawdau ansawdd data yn weladwy ac yn ddealladwy i randdeiliaid.

- Darparu argymhellion ar gyfer monitro a dilysu ansawdd data yn barhaus wrth i'r cyflenwad raddio.

14.6..3 **Galluogi adrodd a delweddu i gefnogi gwneud penderfyniadau:**

- Cytuno gyda Chwaraeon Cymru ynghylch achos defnydd pendant sy'n dangos gwerth sefydliadol clir ac sy'n cyd-fynd â'r canlyniadau Alpha.

- Dylunio ac adeiladu set gyfyngedig o adroddiadau neu ddelweddau (e.e., gan ddefnyddio Power BI neu gyfatebol) sy'n dangos sut mae'r cyflenwad yn cefnogi cynhyrchu dirnadaeth ar gyfer yr achos defnydd. Dylai cyflenwyr hefyd ddisgrifio sut byddai'r dull arfaethedig yn cefnogi adrodd dwyieithog (Cymraeg a Saesneg) yn y dyfodol, heb fod angen ailweithio'r cyflenwad neu'r model data sylfaenol.

- Sicrhau bod adroddiadau a dangosfyrddau'n ddefnyddiadwy, yn ddealladwy, ac yn cael eu hadnewyddu'n awtomatig o'r cyflenwad.

- Dangos sut gallai adrodd rhyngweithiol gefnogi hunanwasanaeth cyfrifol dros amser, heb gymryd gallu hunanwasanaeth llawn yn ganiataol yn ystod Alpha.

- Darparu argymhellion clir ar sut gallai'r dull PoG raddio i allu adrodd a dirnadaeth ehangach, gan gynnwys goblygiadau ar gyfer pensaernïaeth, llywodraethu, adnoddau, sgiliau a chost.

14.6..4 **Trosglwyddo gwybodaeth a meithrin gallu:**

- Gweithio'n agos gyda thîm prosiect Chwaraeon Cymru drwy gydol y broses gyflawni, gan fabwysiadu dull cydweithredol o "ddangos a gwneud" yn hytrach na chyflawni'n ynysig.

- Ymgorffori staff technegol cyflenwr yn nhîm datblygu Chwaraeon Cymru ar gyfer camau allweddol y broses gyflawni (gan gynnwys paru a chysgodi), gan sicrhau bod datblygwyr mewnol yn cymryd rhan weithredol yn y prosesau dylunio, adeiladu a gwneud penderfyniadau yn hytrach na gweithredu fel derbynwyr goddefol. Dylai cyflenwyr dybio bod Chwaraeon Cymru yn bwriadu cynnal ac ymestyn y datrysiad yn fewnol ar ôl Alpha.

- Cydweithredu'n uniongyrchol â chydweithwyr ar draws Dirnadaeth ac Effaith, Datblygu Meddalwedd, Seilwaith a Diogelu Data i feithrin dealltwriaeth a gallu a rennir.

- Cyflwyno sesiynau trosglwyddo strwythuredig sy'n cwmpasu'r canlynol:
  - Sut mae mewnbynnu, trawsnewid ac adrodd ar ddata wedi'u gweithredu.
  - Sut gellid ymestyn y cyflenwad i setiau data ychwanegol.
  - Sut gellid cynnal a monitro'r datrysiad ar ôl Alpha.

        - Beth fyddai ei angen i drawsnewid y PoG yn ddatrysiad byw neu wedi'i raddio, gan gynnwys a fyddai hyn yn cynnwys esblygiad y dull presennol, ailweithio rhannol, neu ailadeiladu mwy sylweddol.

    - Darparu dogfennaeth hygyrch (e.e. canllawiau cam wrth gam, sgriptiau gyda nodiadau, diagramau) sy'n addas ar gyfer staff nad ydynt yn arbenigwyr.

    - Argymell cyfleoedd ar gyfer datblygu sgiliau a llwybrau hyfforddi yn y dyfodol i gefnogi cynaliadwyedd tymor hwy.

14.7 Disgwylir i'r cyflenwr gyflwyno cyflenwad prawf o gysyniad cyflawn, ochr yn ochr ag allbynnau ategol sy'n dangos ymarferoldeb technegol a chyfraniad at y canlyniadau Alpha.

14.8 Bydd y prif elfennau i'w cyflawni'n cynnwys mynediad at a pherchnogaeth o'r canlynol:

- Cyflenwad prawf o gysyniad gweithredol sy'n derbyn dwy set ddata neu fwy.
- Setiau data wedi'u glanhau a'u strwythuro sy'n addas ar gyfer adrodd a dadansoddi.
- Set enghreifftiol o adroddiadau neu ddelweddau sy'n dangos yr achos defnydd y cytunwyd arno.
- Dogfennaeth dechnegol sy'n cwmpasu prosesau cyflenwad, modelau data, pensaernïaeth ac ystyriaethau graddadwyedd (gan gynnwys rhyngweithredadwyedd).
- Pecyn trosglwyddo a sesiynau trosglwyddo gwybodaeth ar gyfer tîm y prosiect.
- Set glir o opsiynau ac argymhellion sy'n disgrifio sut gellid graddio'r PoG i'w ddefnyddio'n ehangach ar draws y sefydliad.
- Tystiolaeth o gynnydd tuag at y canlyniadau Alpha, gan gynnwys codi gallu o fewn timau mewnol.
- Adroddiad byr yn cofnodi'r dysgu allweddol o Alpha, gan gynnwys dirnadaeth dechnegol, sefydliadol a chysylltiedig â data, ac argymhellion ar gyfer y camau nesaf, gan gynnwys yr holl gostau cysylltiedig am gyfnod penodol o amser y cytunwyd arno.

# 15. Cefnogaeth i ddeall diwylliant data Chwaraeon Cymru, ei barodrwydd a'i allu i fabwysiadu a gweithredu'r cyflenwad a'r ffyrdd cysylltiedig o weithio

15.1 Mae Chwaraeon Cymru yn cydnabod mai dim ond os yw'r diwylliant, y gallu, y llywodraethu a'r ffyrdd o weithio priodol yn cefnogi'r cyflenwad data a ddatblygwyd yn ystod Alpha y bydd yn darparu gwerth cynaliadwy. Felly, ystyrir bod cyflawni technegol a mabwysiadu diwylliannol yr un mor bwysig ac yn agweddau rhyngddibynnol ar y caffael hwn.

15.2 Mae'r agwedd hon ar y cam Alpha yn canolbwyntio ar ddeall diwylliant a pharodrwydd data presennol Chwaraeon Cymru, ac ar gyd-ddylunio ymyriadau ymarferol, cymesur sy'n galluogi cydweithwyr i fabwysiadu, defnyddio a chynnal y cyflenwad data a'r ffyrdd cysylltiedig o weithio dros amser.

15.3 Disgwylir i'r cyflenwr drin diwylliant, newid a llywodraethu fel y prif elfennau i'w cyflawni yn y cam Alpha, nid fel gweithgarwch eilaidd neu weithgarwch sy'n cael ei arwain gan gyfathrebu.

15.4 Bydd y cyflenwr a benodir yn darparu cefnogaeth arbenigol i helpu Chwaraeon Cymru i adeiladu ar arfer a dirnadaeth bresennol, gan sicrhau bod diwylliant, gallu a llywodraethu sefydliadol yn cyd-fynd â'r PoG technegol a gyda'r canlyniadau Alpha a nodir yn Adran 13. Bydd hyn yn cynnwys y canlynol:

15.4..1 Deall diwylliant a pharodrwydd data sefydliadol:

- Asesu'r diwylliant sefydliadol presennol o amgylch y defnydd bob dydd o ddata, gan gynnwys agweddau, ymddygiadau, hyder, a disgwyliadau arweinyddiaeth, a dylanwad gofynion adrodd allanol a sefydliadau partner ar arferion data (e.e., disgwyliadau Llywodraeth Cymru ac Ystadegau Swyddogol).

- Archwilio i ba raddau y mae Chwaraeon Cymru yn barod i fabwysiadu a graddio'r cyflenwad data a ddatblygwyd yn ystod Alpha, gan gydnabod amrywiad ar draws cyfarwyddiaethau a swyddi, ac ystyried goblygiadau gweithredu fel corff cyhoeddus sy'n cynhyrchu neu'n rheoli ystadegau swyddogol.

- Adeiladu ar ddirnadaeth bresennol yn hytrach nag ailgynnal darganfod, dilysu a dyfnhau dealltwriaeth lle bo hynny'n briodol.

15.4..2 Nodi ffactorau sy'n galluogi a'r rhwystrau i fabwysiadu:

- Nodi'r ffactorau allweddol sy'n galluogi neu'n rhwystro defnydd cyson ac effeithiol o ddata ar draws y sefydliad, gan gynnwys

sgiliau, iaith a rennir, perchnogaeth, cymhellion, llywodraethu a phrosesau.

- Tynnu sylw at ble fyddai ymyriadau wedi'u targedu'n cael yr effaith fwyaf yn ystod ac yn syth ar ôl Alpha, yn hytrach na cheisio mynd i'r afael â phob problem ar unwaith.

- Rhoi sylw arbennig i'r rhyngwynebau rhwng pobl, proses a thechnoleg, a sut mae'r rhain yn dylanwadu ar fabwysiadu'r cyflenwad.

15.4..3 Asesu llythrennedd a gallu data:

- Asesu lefelau presennol llythrennedd data, hyder a gallu ar draws rhannau perthnasol o'r sefydliad, gan ddefnyddio dulliau cydnabyddedig a chymesur.

- Defnyddio'r asesiad hwn fel sail i argymhellion ymarferol ar gyfer meithrin gallu sy'n cyd-fynd ag anghenion Alpha ac anghenion ôl-Alpha cynnar.

- Bydd Chwaraeon Cymru, ar ôl dyfarnu'r contract, yn gallu rhannu'r gwaith presennol sydd wedi'i wneud hyd yma, gan gynnwys arolwg sgiliau data drafft sydd wedi'i ddatblygu a'i dreialu.

15.4..4 Cynllunio newid, ymgysylltu a mabwysiadu:

- Datblygu argymhellion ymarferol, sy'n seiliedig ar dystiolaeth, ar gyfer y newidiadau sefydliadol sydd eu hangen i gefnogi mabwysiadu'r cyflenwad data, gan gwmpasu pobl, prosesau, llywodraethu a gallu.

- Cyd-ddylunio cynllun newid a mabwysiadu clir sy'n nodi'r canlynol:
    - Sut bydd cefnogaeth ac ymgysylltu'n cael eu meithrin a'u cynnal yn ystod Alpha.
    - Sut bydd disgwyliadau'n cael eu rheoli (gan gynnwys cydnabod cromliniau dysgu a chyfyngiadau cynnar).
    - Ymyriadau blaenoriaeth i ymgorffori ffyrdd newydd o weithio, fel hyrwyddwyr neu lysgenhadon, cymunedau ymarfer, sesiynau dangos a dweud, a hyfforddiant neu becynnau cymorth wedi'u targedu.

- Sicrhau bod y dull newid yn gymesur, yn realistig, ac yn briodol ar gyfer cam Alpha, gan ganolbwyntio ar ddysgu a momentwm yn hytrach na thrawsnewid sefydliadol llawn.

15.4..5 Llywodraethu data, perchnogaeth ac atebolrwydd:

- Cynghori ar drefniadau llywodraethu data cymesur sy'n cefnogi ymddiriedaeth, eglurder a graddadwyedd heb gyflwyno biwrocratiaeth ddiangen.

- Cynnig swyddogaethau a chyfrifoldebau clir ar gyfer perchnogaeth data, stiwardiaeth a gwneud penderfyniadau, yn cyd-fynd â'r cyflenwad technegol a graddio yn y dyfodol, gan gynnwys disgwyliadau dangosol o ran amser a chapasiti a sut mae'r rhain yn cyd-fynd â chylchoedd cynnal a chadw a diweddaru parhaus.

- Lle bo hynny'n briodol, dangos sut gellir cefnogi llywodraethu drwy offer ac awtomeiddio yn hytrach na phrosesau maniwal.

15.4..6 Adnabod a lliniaru risg:

- Nodi risgiau diwylliannol, ymddygiadol a sefydliadol allweddol i fabwysiadu'r cyflenwad data.

- Cynnig lliniaru ymarferol y gellir ei brofi neu ei weithredu yn ystod Alpha, yn enwedig yn ymwneud â chapasiti, ymgysylltu, llywodraethu a chyd-fynd ag arweinyddiaeth.

15.4..7 Meincnodi ac arfer gorau:

- Defnyddio gwersi perthnasol gan sefydliadau cymharol fel sail i argymhellion, gan sicrhau bod y dulliau arfaethedig yn briodol i gyd-destun, maint ac aeddfedrwydd Chwaraeon Cymru.

- Defnyddio enghreifftiau i ddangos sut gallai "da" edrych dros amser, heb gyflwyno'r rhain fel datrysiadau rhagnodol neu ddatrysiadau un maint yn ffitio pawb.

15.5 Rhaid i waith y cyflenwr ddilysu, ymestyn a diweddaru dirnadaeth bresennol yn hytrach na'i dyblygu. Mae hyn yn cynnwys y canlynol:

- Y gwaith darganfod Data a Dirnadaeth sydd wedi'i wneud hyd yma.

- Yr Asesiad Aeddfedrwydd Data a gwblhawyd ym mis Hydref 2024.

- Dirnadaeth sefydliadol cysylltiedig â defnydd, gallu a pharodrwydd data.

- Adolygiad ansawdd data RSMUK.

- Ystyriaethau galluogi data RSMUK, sy'n cynnwys syniadau ar feysydd sy'n gysylltiedig â llythrennedd data, uwchsgilio, gwella'r diwylliant data o fewn y sefydliad, a sylwadau sy'n gysylltiedig â dogfennaeth llywodraethu data gyfredol.

- Fframwaith drafft strategaeth data RSMUK, sy'n amlinellu awgrymiadau ar sut ddogfen fydd strategaeth data dda i Chwaraeon Cymru yn y dyfodol.

15.6 Bydd y deunyddiau hyn ar gael i'r cyflenwr llwyddiannus ar ôl dyfarnu'r contract.

15.7 Mae'r allbynnau disgwyliedig o'r agwedd hon ar gam Alpha yn cynnwys y canlynol:

- Golwg glir, sy'n seiliedig ar dystiolaeth, ar barodrwydd Chwaraeon Cymru i fabwysiadu a gwreiddio'r cyflenwad data, gan gynnwys ystyriaethau ar gyfer graddio y tu hwnt i Alpha.
- Argymhellion ymarferol, wedi'u blaenoriaethu, ar gyfer cryfhau diwylliant data, llywodraethu a gallu.
- Map ffordd mabwysiadu amlinellol sy'n nodi camau gweithredu tymor byr, canolig a hwy.
- Cynllun newid ac ymgysylltu cymesur i gefnogi dealltwriaeth, perchnogaeth a chefnogaeth a rennir.
- Cynigion clir ar gyfer sut dylid monitro cynnydd ar ddiwylliant, gallu a pharodrwydd dros amser.

15.8 Rhaid i'r cyflenwr fabwysiadu dull cydweithredol a chyfranogol o weithredu, gan weithio'n agos gyda thîm y prosiect ac arweinwyr perthnasol drwy gydol y broses gyflawni. Dylai hyn gynnwys ymgysylltu â chydweithwyr ar draws gwahanol gyfarwyddiaethau a lefelau llythrennedd data.

15.9 Dylai'r dull sicrhau bod dirnadaeth ddiwylliannol a sefydliadol wedi'u seilio ar arfer real, gyda’r naws briodol, ac yn cefnogi'n uniongyrchol y broses o wneud penderfyniadau a chynaliadwyedd tymor hir y cyflenwad ddata.

# 16. Gweithredu a Chroesawu

16.1 **Llinellau amser arfaethedig**

Bydd gofyn i'r Cyflenwr ymrwymo i raglen gyflawni bendant sy'n cyd-fynd â cherrig milltir allweddol Chwaraeon Cymru a amlinellir isod:

16.1..1 Ebrill 2026:

- Bydd gofyn i'r Cyflenwr gwblhau asesiad technegol llawn a fydd yn cael ei gofnodi ar systemau mewnol Chwaraeon Cymru ar gyfer diogelwch data a chofnodion cydymffurfio. *Sylwch mai at ddibenion gweinyddol yn unig y mae hyn, a bod yr holl ofynion gorfodol a hanfodol o fewn yr asesiad technegol eisoes wedi'u cyflwyno fel rhan o ymateb y tendrwr.*
- Bydd gofyn i'r Cyflenwr ymrwymo i gytundeb rhannu data gyda Chwaraeon Cymru a chytuno arno cyn cael mynediad at unrhyw ddata, gan nodi pwrpas y defnydd o ddata, swyddogaethau a chyfrifoldebau, trefniadau diogelwch, cadw, ac unrhyw gyfyngiadau rhannu ymlaen, yn unol â gofynion diogelu data a llywodraethu gwybodaeth cymwys.

16.1..2 Ebrill 2026 - Medi 2026:
Bydd gofyn i'r cyflenw(y)r gyflawni'r ddwy agwedd ar y tendr, gan gynnwys yr holl elfennau i'w cyflawni, yr adroddiad terfynol, a'r cyflwyniad clo i randdeiliaid allweddol o fewn yr amserlenni penodol a chytundebol.

16.2 Manylion Masnachol

16.2..1 Hyd y Contract: **6** mis

16.2..2 Gwerth Disgwyliedig y Contract: £100,000 ac eithrio TAW [dros hyd y contract]

16.3 Cyfrifoldebau

Bydd Chwaraeon Cymru yn darparu mynediad at ddata ac adnoddau sydd eisoes wedi'u casglu ac yn sicrhau bod aelodau o'r tîm mewnol ar gael i ymgymryd ag ymchwil ychwanegol yn ôl yr angen.

16.4 Cadw Cofnodion ac Adrodd yn Ôl

16.4..1 Bydd yn ofynnol i'r Cyflenwr reoli holl ddata Chwaraeon Cymru yn briodol, yn unol â GDPR y DU, Deddf Diogelu Data 2018, Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Deddf yr Iaith Gymraeg 1993.

16.4..2 Rhaid i'r Cyflenwr gytuno i beidio â defnyddio na datgelu Gwybodaeth Gyfrinachol a ddarperir wrth baratoi'r Cynllun, a bod yn rhwym i bolisïau cyfrinachedd Chwaraeon Cymru. Gall hyn gynnwys ymrwymo i gytundeb peidio â datgelu safonol.

16.5 Llywodraethu

16.5..1 Bydd Chwaraeon Cymru yn penodi Rheolwr Contract i weithredu fel y pwynt cyswllt uniongyrchol rhyngddo ef a'r Cyflenwr llwyddiannus.

16.5..2 Rhaid i'r Cyflenwr hefyd benodi Rheolwr Contract pwrpasol i weithredu fel y pwynt cyswllt uniongyrchol rhwng ei sefydliad a Chwaraeon Cymru (h.y. Rheolwr Cyfrif penodol wedi'i enwi).

16.5..3 Rhaid i'r Cyflenwr hefyd benodi Rheolwr Prosiect i oruchwylio cyflawni'r prosiect [os nad yw wedi'i ymgorffori yn rôl y Rheolwr Contract]. Rhaid i'r Rheolwr Prosiect fod â gwybodaeth fanwl am ofynion Chwaraeon Cymru.

16.6 Rheoli Ansawdd a Pherfformiad

16.6..1 Cytunir ar amserlen gyflawni fanwl a chyraeddadwy rhwng Chwaraeon Cymru a'r Cyflenwr a'i rhoi ar waith i'w defnyddio.

16.6..2 Oni bai fod Chwaraeon Cymru wedi cytuno fel arall, os bydd perfformiad y Cyflenwr yn erbyn y cynllun cyflawni yn methu â chyflawni'r gofynion perfformiad y cytunwyd arnynt, gall Chwaraeon Cymru eu cyfarwyddo i ddarparu cynigion i ddatrys y tanberfformiad ar ffurf cynllun gwella.

16.6..3 Bydd y Cyflenwr yn darparu ei gynigion o fewn pedwar diwrnod ar ddeg i'r cyfarwyddyd hwn. Bydd cynigion o'r fath yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, esboniad o achos sylfaenol y tanberfformiad, pwyntiau gweithredu allweddol i adfer y sefyllfa ac amserlen ar gyfer cywiro'r tanberfformiad.

16.6..4 Bydd Chwaraeon Cymru yn rhoi cyfarwyddyd i ddatrys y tanberfformiad naill ai drwy dderbyn Cynllun Gwella'r Cyflenwr neu drwy gyfarwyddo sut dylid mynd i'r afael â'r tanberfformiad fel arall.

16.7 Cynllunio Mynediad a Gadael

16.7..1 Os na all Chwaraeon Cymru a'r Cyflenwr sy’n cael ei ffafrio gytuno ar fanylion contract, mae Chwaraeon Cymru yn cadw'r hawl i edrych ar ddyfarnu'r contract i'r tendrwr gyda'r ail sgôr uchaf.

*16.7..2 Sylwer y bydd y broses o ddyfarnu posibl i'r tendrwr gyda'r ail sgôr uchaf, os na fydd y dyfarniad yn mynd i'r Cyflenwr sy’n cael ei ffafrio, yn cael ei sefydlu yn unol â disgresiwn llwyr Chwaraeon Cymru.*

16.7..3 Cynhelir cyfarfod sefydlu’r prosiect i benderfynu’n fanwl ar allbynnau ac amserlenni.

16.7..4 Ar ddiwedd y contract, bydd yn ofynnol i'r Cyflenwr sy'n gadael ddychwelyd dogfennau nad oes eu hangen mwyach at ddibenion cyfreithiol neu reoleiddiol a rhoi sicrwydd i Chwaraeon Cymru bod yr holl ddogfennaeth arall ac unrhyw ddata wedi'u dinistrio / eu dileu.

# 17. Y Broses Asesu

17.1 Mae'r Broses Asesu yn cynnwys un gwahoddiad llawn i dendro, a fydd yn cael ei asesu a'i sgorio yn unol â hynny.

17.2 Mae’n ofynnol i dendrwyr ddefnyddio’r templedi ymateb a ddarperir fel rhan o'r pecyn tendro. Ni fydd tendrau a gyflwynir heb ddefnyddio'r templedi a ddarperir yn cael eu hystyried.

17.3 Rhaid i dendrwyr ddarparu ymatebion manwl a thystiolaeth ategol ar gyfer gofynion a meysydd y prosiect. Rhaid i dendrwyr ymateb i'r gyfres lawn o ofynion y prosiect.

17.4 Defnyddiwch y dogfennau canlynol i ddarparu ymatebion tendr:
- ‘Gofynion y Prosiect – templed ymateb’
- ‘Masnachol – templed ymateb’
- Ffurflen y Tendr

17.5 Rhaid ateb pob gofyniad yn glir. Dylid cynnwys tystiolaeth ategol, fel sgrinluniau, geirda cwsmeriaid, neu wybodaeth arall lle bo modd, a dylid eu cynnwys yn y templed ymateb a ddarperir yn unig.

17.6 Rhaid i dendrwyr ddangos sut mae eu cynnig yn bodloni holl ofynion prosiect Chwaraeon Cymru yn llawn.

17.7 Rhaid mynd i'r afael â phob gofyniad technegol yn unigol.

17.8 Dylai'r ymatebion ddisgrifio'r dull technegol a phensaernïol arfaethedig sy'n briodol ar gyfer prawf o gysyniad Alpha, gan gynnwys sut bydd mesurau rheoli diogelwch a mynediad yn cael eu rheoli, sut bydd data'n cael eu storio a'u trin o fewn yr amgylchedd Azure, sut cyflawnir integreiddio â systemau ffynhonnell, a sut mae'r dull yn cefnogi graddadwyedd a defnydd yn y dyfodol. Dylai'r cyflenwyr hefyd amlinellu unrhyw ragdybiaethau neu gyfyngiadau sy'n berthnasol i'r cam Alpha.

17.9 Rhaid i dendrwyr hefyd ddarparu amserlen brisio gynhwysfawr gan ddefnyddio'r 'Masnachol - templed ymateb', sy'n cwmpasu'r canlynol:

17.9..1 **Costau Cyffredinol y Prosiect**

17.9..1.1 Yr holl gostau sy'n gysylltiedig â chyflawni prawf o gysyniad cam Alpha, gan gynnwys adnoddau cyflenwyr ar draws gweithgarwch technegol a diwylliannol, gweithgareddau cyflawni a chydweithredu, ac unrhyw dreuliau cysylltiedig.

17.9..2 **Cyflawni a chydlynu Alpha**

17.9..2.1 Yr holl gostau sy'n gysylltiedig â chydlynu a rheoli cyflawni prawf o gysyniad cam Alpha, gan gynnwys y canlynol:

- Rheoli a chydlynu darpariaeth o ddydd i ddydd ar draws y gweithgareddau technegol a diwylliannol
- Cynllunio sbrint neu ailadrodd, blaenoriaethu, a rheoli risg
- Adrodd ar gynnydd, sesiynau dangos a dweud, ac ymgysylltu â thîm prosiect Chwaraeon Cymru

17.9..3 **Cyflawni technegol a chreu cyflenwad data**

17.9..3.1 Yr holl gostau sy'n gysylltiedig â'r agweddau technegol ar y cam Alpha, gan gynnwys y canlynol:

- Dylunio, adeiladu a phrofi'r cyflenwad data prawf o gysyniad
- Mewnbynnu data, trawsnewid, modelu a gweithgareddau ansawdd
- Datblygu adrodd neu ddelweddau sampl i ddangos yr achos defnydd y cytunwyd arno
- Dogfennaeth dechnegol, diagramau ac arteffactau sy'n ofynnol i gefnogi perchnogaeth fewnol
- Costau trwyddedu ar gyfer y 6 mis cychwynnol o gyflwyno PoG

17.9..4 **Gweithgarwch diwylliannol, galluogrwydd a mabwysiadu**

17.9..4.1 Yr holl gostau sy'n gysylltiedig â deall a galluogi parodrwydd sefydliadol i fabwysiadu a chynnal y cyflenwad data, gan gynnwys y canlynol:

- Asesiad o ddiwylliant, parodrwydd a gallu data
- Dylunio argymhellion cymesur ar gyfer mabwysiadu, llywodraethu a meithrin gallu
- Cynllunio newid, ymgysylltu a mabwysiadu sy'n briodol i gam Alpha
- Integreiddio gweithgarwch diwylliannol a newid gyda chyflawni technegol

17.9..5 **Teithio a Chynhaliaeth**

17.9..5.1 Unrhyw gostau sy'n gysylltiedig â theithio, llety neu gynhaliaeth sy'n angenrheidiol i gyflawni'r gwaith (os yw'n berthnasol). Mae Chwaraeon Cymru yn gweithredu model gweithio hybrid ac yn disgwyl i'r rhan fwyaf o'r ymgysylltu gael ei gynnal yn rhithwir; dylid cytuno ar unrhyw bresenoldeb corfforol ymlaen llaw.

17.9..6 **Dyrannu adnoddau a swyddogaethau**

17.9..6.1 Dadansoddiad o ddyrannu adnoddau yn ôl rôl, gan gynnwys y canlynol:

- Disgrifiadau rôl (e.e. arweinydd technegol, peiriannydd data, dadansoddydd, arbenigwr newid)
- Cyfraddau dyddiol ac amcangyfrif o nifer y dyddiau i bob rôl
- Sut mae'r ymdrech o ran adnoddau'n cael ei dosbarthu ar draws darpariaeth dechnegol, gweithgarwch diwylliannol, a throsglwyddo gwybodaeth.

17.9..7 **Gwasanaethau Dewisol neu Ychwanegol**

17.9..7.1 Gall tendrwyr gynnwys unrhyw weithgareddau dewisol neu werth ychwanegol y maent yn credu fyddai'n gwella canlyniadau'r prosiect (e.e. ymchwil, hyfforddiant neu gefnogaeth weithredu ychwanegol). Dylid rhestru'r rhain yn glir a'u costio ar wahân.

17.9..8 **Rhagdybiaethau cost**

17.9..8.1 Rhaid i dendrwyr fanylu ar unrhyw ragdybiaethau sy'n sail i'w prisiau, gan gynnwys:

- Arian cyfred a sefyllfa dreth (e.e., yn cynnwys neu heb TAW)
- Cyfnod dilysrwydd y pris

- Unrhyw ddibyniaethau neu amodau cost

17.10 **Gwerthuso'r Tendr**

17.10..1 Bydd tendrau'n cael eu gwerthuso yn seiliedig ar gyfuniad o ofynion y prosiect a'r meini prawf masnachol i sicrhau bod y system yn darparu'r gwerth cyffredinol gorau i'r sefydliad. Bydd y gwerthusiad yn cael ei bwysoli fel a ganlyn:

| Maes Gwerthuso | Pwysoli (%) |
|---|---|
| Gofynion y Prosiect | 80% |
| Masnachol | 20% |

17.10..2 Gwerthusiad o Ofynion y Prosiect (80%)

17.10..3 Bydd yr asesiad o allu'r tendrwr i gyflawni gofynion y prosiect yn ystyried pa mor dda y mae'r tendrwr yn gallu dangos sut mae'n bodloni'r ystod lawn o ofynion ar gyfer y prosiect hwn.

17.10..4 Gwerthusiad Masnachol (20%)

17.10..5 Bydd yr asesiad masnachol yn canolbwyntio ar werth am arian cyffredinol, gan ystyried y canlynol:

- Cyfanswm cost y gwaith a'r gefnogaeth
- Eglurder a chyflawnder yr amserlen brisio

17.10..5.1 Bydd yr elfen fasnachol yn cyfrif am 20% o'r sgôr werthuso gyffredinol, gan sicrhau bod cost yn ffactor arwyddocaol ond nid yn ffactor hollbwysig yn y broses ddewis.

17.11 **Sgorio'r Tendr**

17.11..1 Bydd y cynnig gyda'r pris isaf a dderbynnir yn cael y pwysau mwyaf (20%). Bydd pob cynnig arall yn gyfrannol yn erbyn y cynnig buddugol.

17.11..2 Bydd yr ymatebion i'r tendr yn cael eu gwerthuso yn seiliedig ar ansawdd a phris.

17.11..3 Bydd ansawdd pob ymateb yn cael ei asesu yn erbyn y raddfa sgorio sydd wedi'i diffinio, gyda'r sgoriau'n amrywio o 0 (dim ymateb neu ymateb amherthnasol) i 5 (ymateb rhagorol). Disgwylir i dendrwyr ddarparu atebion manwl, yn seiliedig ar dystiolaeth sy'n dangos eu dealltwriaeth o'r gofynion a'u gallu i gyflawni'n llwyddiannus.

17.11..4 Bydd yr elfen brisio yn cyfrif am 20% o gyfanswm y sgôr. Bydd y cynnig gyda'r pris isaf a dderbynnir yn derbyn y sgôr uchaf am bris yn awtomatig. Bydd pob cynnig arall yn cael ei sgorio'n gyfrannol yn erbyn y cynnig isaf, gan sicrhau asesiad teg a chyson o werth am arian.

17.11..5 Bydd ansawdd a phris yn cael eu pwysoli a'u cyfuno i bennu'r sgôr gyffredinol ar gyfer pob tendrwr.

17.11..6 Siart sgorio

| Gwerth y Sgôr | Disgrifiad o'r Sgôr |
|---|---|
| Sgôr o 0 lle mae | Dim ymateb neu ymateb nad yw'n berthnasol i'r cwestiwn neu'r cwestiwn heb ei ateb. |
| Sgôr o 1 lle mae | Ymateb Gwael - Mae'r ateb wedi mynd i'r afael â'r cwestiwn yn rhannol ond mae diffyg tystiolaeth o'r gofynion a geisir. Diffyg dealltwriaeth wirioneddol o'r gofyniad neu dystiolaeth o'r gallu i gyflawni. |
| Sgôr o 2 lle mae | Mae'r ymateb yn mynd i'r afael â'r cwestiwn ond yn darparu manylion cyfyngedig neu dystiolaeth wan. Mae rhywfaint o ddealltwriaeth o'r gofyniad, ond dim ond rhannol yw'r hyder yn y gallu i gyflawni'n llawn. Mae'r ymateb yn well na gwael ond nid yw'n bodloni safon dderbyniol. |
| Sgôr o 3 lle mae | Ymateb Derbyniol - Mae'r ymateb yn cydymffurfio â'r cwestiwn ac yn darparu tystiolaeth y gofynnwyd amdani. |
| Sgôr o 4 lle mae | Mae'r ymateb yn mynd i'r afael â'r cwestiwn yn uniongyrchol gyda thystiolaeth berthnasol a digonol i gefnogi'r ateb. Mae'r tendrwr yn dangos y gall fodloni'r gofyniad ac, o bosibl, rhagori arno mewn rhai meysydd, er nad i'r lefel gynhwysfawr neu eithriadol sy'n ofynnol ar gyfer sgôr o 5. |
| Sgôr o 5 lle mae | Ymateb Rhagorol – Mae'n mynd i'r afael â'r cwestiwn yn uniongyrchol gyda thystiolaeth glir i gefnogi atebion. Mae'r tendrwr yn dangos y gall fodloni'r gofyniad neu ragori arno. |

## 17.12 Pwysoli'r Sgôr

17.12..1 Mae lefel flaenoriaeth wedi'i neilltuo i bob gofyniad yn y tendr hwn i adlewyrchu ei bwysigrwydd i gyflawni'r system yn llwyddiannus. Mae'r matrics pwysoli isod yn amlinellu sut mae pob lefel blaenoriaeth yn cyfrannu at y gwerthusiad cyffredinol:

- *Hanfodol (Pwysoli: 3)* – Mae'r rhain yn ofynion hanfodol sy'n allweddol ar gyfer llwyddiant. Ni all y system weithredu na chael ei derbyn heb y rhain. Gall methu â bodloni'r gofynion hanfodol yn ddigonol arwain at sgôr isel.

- *Dymunol (Pwysoli: 2)* – Mae'r rhain yn ofynion pwysig sy'n darparu gwerth sylweddol ac yn gwella'r system gyffredinol ond nid ydynt yn hollbwysig ar gyfer y lefel isaf o weithredu derbyniol

17.12..2 Dylai tendrwyr sicrhau bod eu hymatebion yn mynd i'r afael yn ofalus â'r holl ofynion, gyda ffocws penodol ar y rhai a farciwyd â 3, gan mai hwy sydd â'r pwysau mwyaf yn y broses werthuso.

# 18. Gofynion

18.1 Mae'r adran hon yn nodi gofynion y prosiect ar gyfer agweddau technegol a diwylliannol y gwaith yn llawn ac yn ffurfio sail y broses gaffael hon.

18.2 Dylai cyflenwyr sicrhau bod ymatebion i'r gofynion isod yn dangos yn glir sut mae eu dull arfaethedig yn cyfrannu at un neu fwy o'r canlyniadau Alpha a nodir yn Adran 13.

18.3 Tystiolaeth i'w darparu lle bo angen.

| Agwedd Dechnegol | | | |
|---|---|---|---|
| Dull technegol a meddwl pensaernïol | | | |
| Rhif y Gofyniad | Gofyniad | Pwysoli | Sgôr Uchafswm |
| 1 | Disgrifiwch, darluniwch a chyfiawnhewch eich dull technegol a phensaernïol arfaethedig o weithredu ar gyfer cyflwyno cyflenwad data prawf o gysyniad Alpha. | 3 | 15 |
| 2 | Eglurwch sut mae eich dull arfaethedig yn cefnogi graddadwyedd y tu hwnt i Alpha ac yn parhau i fod yn finimalaidd, yn gynaliadwy ac yn briodol ar gyfer perchnogaeth fewnol ar ôl Alpha. | 3 | 15 |
| 3 | Disgrifiwch sut mae eich dull o weithredu'n galluogi defnydd canlyniadol yn y dyfodol (e.e., adrodd, dadansoddeg, arbrofi AI) heb orbeiriannu yn ystod Alpha. | 3 | 15 |
| Derbyn data a sylfeini cyflenwad | | | |
| Rhif y Gofyniad | Gofyniad | Pwysoli | Sgôr Uchafswm |
| 4 | Eglurwch sut byddwch chi'n gweithredu derbyn diogel, awtomatig sy'n briodol ar gyfer Alpha, gan gynnwys amserlennu, monitro a thrin gwallau. | 3 | 15 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 5 | Disgrifiwch sut byddwch chi'n dilysu ac yn adeiladu ar ddealltwriaeth bresennol Chwaraeon Cymru o setiau data PoG (fformat, cyfaint, ansawdd, cyfyngiadau mynediad), yn hytrach na'u hailddarganfod. | 3 | 15 |
| 6 | Eglurwch sut bydd metadata, perchnogaeth data, a rheolau mynediad yn cael eu sefydlu a'u dogfennu ar gyfer setiau data PoG, gan gynnwys sut bydd y metadata arfaethedig yn cael eu diffinio i ddiwallu anghenion defnyddwyr a gwneud penderfyniadau, yn hytrach na bod yn gwbl dechnegol. | 3 | 15 |
| 7 | Disgrifiwch sut bydd llywodraethu data cymesur yn cael ei ymgorffori yn y cyflenwad a'i gefnogi drwy awtomeiddio lle bo modd. | 3 | 15 |
| Glanhau, trawsnewid a modelu data | | | |
| Rhif y Gofyniad | Gofyniad | Pwysoli | Sgôr Uchafswm |
| 8 | Disgrifiwch eich dull o baratoi data yn ystod Alpha, gan gynnwys ymdrin â gwerthoedd coll, anghysondebau, dyblygu ac allanolion. | 3 | 15 |
| 9 | Eglurwch sut bydd data crai yn cael eu trawsnewid yn setiau data strwythuredig, sy'n barod i'w dadansoddi, gan ddefnyddio adnoddau priodol o fewn ecosystem Azure neu gyfatebol. | 3 | 15 |
| 10 | Disgrifiwch sut byddwch chi'n datblygu ac yn defnyddio modelau data cysyniadol, rhesymegol a ffisegol sy'n cyd-fynd â'r achos defnydd y cytunwyd arno a chanlyniadau Alpha, gan gynnwys sut bydd perthnasoedd rhwng setiau data'n cael eu nodi a'u rheoli. | 3 | 15 |
| 11 | Eglurwch sut bydd problemau ansawdd data, rhagdybiaethau a chyfaddawdau'n cael eu gwneud yn weladwy ac yn ddealladwy i randdeiliaid. | 2 | 10 |
| 12 | Disgrifiwch eich dull o ddiffinio safonau data y gellir eu hailddefnyddio (e.e. confensiynau enwi, data cyfeirio) sy'n addas i'w hymestyn yn y dyfodol, gan gynnwys sut byddai meysydd blaenoriaeth fel gweithgareddau / chwaraeon, daearyddiaethau, demograffeg, a chategorïau buddsoddi'n cael eu safoni ar draws setiau data. | 3 | 15 |
| Adrodd a chynhyrchu gwybodaeth | | | |
| Rhif y Gofyniad | Gofyniad | Pwysoli | Sgôr Uchafswm |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 13 | Disgrifiwch eich dull o gytuno ar achos defnydd pendant sy'n dangos gwerth sefydliadol clir yn ystod Alpha a'i gyflwyno. | 3 | 15 |
| 14 | Eglurwch sut bydd adrodd neu ddelweddau'n cefnogi sgyrsiau gwneud penderfyniadau real yn hytrach nag arddangosfa dechnegol yn unig. | 3 | 15 |
| 15 | Disgrifiwch sut bydd adroddiadau neu ddangosfyrddau'n cael eu hadnewyddu'n awtomatig o'r cyflenwad.<br>Eglurwch sut mae eich dull yn dangos hunanwasanaeth cyfrifol dros amser heb gymryd yn ganiataol gallu hunanwasanaeth llawn yn ystod Alpha. | 2 | 10 |
| 16 | Disgrifiwch sut byddwch chi'n nodi argymhellion clir ar gyfer graddio gallu adrodd a dirnadaeth y tu hwnt i Alpha, gan gynnwys parodrwydd ar gyfer adrodd dwyieithog (Cymraeg a Saesneg). | 3 | 15 |
| Diogelwch, cydymffurfiaeth a risg | | | |
| Rhif y Gofyniad | Gofyniad | Pwysoli | Sgôr Uchafswm |
| 17 | Disgrifiwch y mesurau rheoli diogelwch gwybodaeth y bydd eich sefydliad yn eu cymhwyso yn ystod y cam Alpha. Dylai hyn gynnwys cyfeiriad at fesurau rheoli ISO 27001 (neu gyfatebol), sut cânt eu gweithredu'n ymarferol, a sut byddant yn rheoli risg yn gymesur yn ystod cyflawni Alpha. | 3 | 15 |
| 18 | Eglurwch sut bydd data'n cael eu diogelu wrth eu cludo ac wrth orffwys, a sut bydd gofynion GDPR a diogelu data'r DU yn cael eu bodloni yn ystod Alpha. Disgrifiwch yr holl drosglwyddiadau data alldiriogaethol [e.e., y tu allan i'r DU] a sut maent yn cydymffurfio. | 3 | 15 |
| 19 | Disgrifiwch sut bydd archwiliadwyedd (e.e. cofnodi mynediad, ac olrheinedd newidiadau data) yn cael ei gefnogi ar lefel sy'n briodol i Alpha. | 3 | 15 |
| 20 | Amlinellwch sut bydd risgiau diogelwch neu risgiau sy'n gysylltiedig â data'n cael eu nodi, eu monitro a'u rheoli yn ystod Alpha. | 3 | 15 |
| 21 | Disgrifiwch sut bydd lleihau data, cadw a gwaredu diogel yn cael eu rheoli yn ystod Alpha, gan gynnwys trefniadau wrth adael y contract. | 3 | 15 |
| 22 | Disgrifiwch unrhyw ddefnydd o is-broseswyr neu wasanaethau trydydd parti a allai brosesu data Chwaraeon Cymru yn ystod | 3 | 15 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Alpha, gan gynnwys trefniadau preswyliad a sicrwydd data. | | |
| 23 | Disgrifiwch yr arferion datblygu diogel y byddwch yn eu defnyddio yn ystod cyflawni cam Alpha. | 3 | 15 |
| Trosglwyddo gwybodaeth a darpariaeth gyfun | | | |
| Rhif y Gofyniad | Gofyniad | Pwysoli | Sgôr Uchafswm |
| 24 | Disgrifiwch sut bydd staff technegol y cyflenwyr yn gweithio ochr yn ochr â datblygwyr Chwaraeon Cymru yn ystod Alpha, gan gynnwys paru, cysgodi a gwneud penderfyniadau ar y cyd. | 3 | 15 |
| 25 | Eglurwch eich dull o drosglwyddo strwythuredig a'r pontio i berchnogaeth ôl-Alpha. | 3 | 15 |
| 26 | Rhowch enghreifftiau o ddogfennaeth y byddech chi'n disgwyl ei chynhyrchu i gefnogi cynnal a chadw ac estyniad mewnol. | 2 | 10 |
| Cyflawni a phrofiad | | | |
| Rhif y Gofyniad | Gofyniad | Pwysoli | Sgôr Uchafswm |
| 27 | Disgrifiwch eich dull cyflawni ar gyfer Alpha, gan gynnwys sut bydd cwmpas, blaenoriaethau, pensaernïaeth a risgiau cyflawni, a dibyniaethau'n cael eu rheoli'n weithredol. | 3 | 15 |
| 28 | Rhowch enghreifftiau o fentrau data Alpha, peilot neu brawf o gysyniad blaenorol rydych chi wedi'u cyflawni, gan gynnwys yr hyn a ddysgwyd. | 3 | 15 |
| 29 | Eglurwch sut byddwch chi'n cydweithredu ar draws swyddogaethau technegol, dirnadaeth, seilwaith a diogelu data. | 3 | 15 |
| **Agwedd Ddiwylliannol** | | | |
| Deall diwylliant data a pharodrwydd | | | |
| Rhif y Gofyniad | Gofyniad | Pwysoli | Sgôr Uchafswm |
| 30 | Disgrifiwch eich dull o ddeall diwylliant data sefydliadol a'ch parodrwydd i fabwysiadu cyflenwad data, sy'n briodol i gam Alpha. | 3 | 15 |
| 31 | Rhowch enghreifftiau o waith tebyg lle gwnaethoch chi asesu parodrwydd a ffactorau diwylliannol sy'n effeithio ar fabwysiadu data. | 3 | 15 |
| 32 | Disgrifiwch sut byddwch chi'n dilysu ac yn adeiladu ar allbynnau darganfod presennol a'r Asesiad Aeddfedrwydd Data, yn hytrach na'u dyblygu. | 2 | 10 |

| Galluogwyr, rhwystrau ac ymddygiadau mabwysiadu | | | |
|---|---|---|---|
| Rhif y Gofyniad | Gofyniad | Pwysoli | Sgôr Uchafswm |
| 33 | Disgrifiwch eich methodoleg ar gyfer nodi galluogwyr a rhwystrau i fabwysiadu data ar draws pobl, prosesau a thechnoleg. | 3 | 15 |
| 34 | Rhowch enghreifftiau o ymyriadau wedi'u targedu rydych chi wedi'u cynllunio i fynd i'r afael â rhwystrau mabwysiadu mewn sefydliadau tebyg. | 2 | 10 |
| 35 | Eglurwch sut byddwch chi'n blaenoriaethu ymyriadau sy'n addas ar gyfer Alpha yn hytrach na cheisio trawsnewid sefydliadol llawn. | 3 | 15 |
| Llywodraethu, perchnogaeth ac atebolrwydd | | | |
| Rhif y Gofyniad | Gofyniad | Pwysoli | Sgôr Uchafswm |
| 36 | Disgrifiwch eich dull o adolygu ac argymell trefniadau llywodraethu data cymesur. | 3 | 15 |
| 37 | Eglurwch sut gellir ymgorffori perchnogaeth ac atebolrwydd clir dros ddata a gwneud penderfyniadau mewn ymarfer o ddydd i ddydd. | 3 | 15 |
| 38 | Disgrifiwch sut bydd argymhellion llywodraethu'n cyd-fynd â'r cyflenwad technegol ac yn ei gefnogi. | 3 | 15 |
| Gallu a llythrennedd data | | | |
| Rhif y Gofyniad | Gofyniad | Pwysoli | Sgôr Uchafswm |
| 39 | Disgrifiwch sut byddwch chi'n asesu llythrennedd a gallu data ar draws swyddogaethau a chyfarwyddiaethau. | 3 | 15 |
| 40 | Rhowch enghreifftiau o ymyriadau meithrin gallu rydych chi wedi'u cyflwyno (e.e. hyfforddiant, cymunedau ymarfer, mentora). | 3 | 15 |
| 41 | Eglurwch sut byddech chi'n trefnu ac yn blaenoriaethu gweithgareddau meithrin gallu yn ystod ac yn syth ar ôl Alpha. | 3 | 15 |
| Rheoli newid a chynllunio mabwysiadu | | | |
| Rhif y Gofyniad | Gofyniad | Pwysoli | Sgôr Uchafswm |
| 42 | Disgrifiwch eich dull o ddatblygu cynlluniau newid a mabwysiadu sy'n meithrin cefnogaeth ac yn rheoli disgwyliadau yn ystod Alpha. | 3 | 15 |
| 43 | Rhowch enghreifftiau o sut rydych chi wedi sicrhau bod dirnadaeth ac argymhellion diwylliannol yn "llwyddo" ac yn cael eu gweithredu. | 3 | 15 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 44 | Eglurwch sut byddwch chi'n gweithio gyda'r arweinyddiaeth a thîm y prosiect i gynnal momentwm y tu hwnt i Alpha. | 2 | 10 |
| **Risg, mesur a dysgu** | | | |
| **Rhif y Gofyniad** | **Gofyniad** | **Pwysoli** | **Sgôr Uchafswm** |
| 45 | Disgrifiwch sut byddwch chi'n nodi ac yn lliniaru risgiau i fabwysiadu diwylliannol a pharodrwydd. | 3 | 15 |
| 46 | Eglurwch sut gellid mesur a monitro cynnydd ar ddiwylliant, gallu a pharodrwydd dros amser, gan gynnwys sut byddai llinellau sylfaen yn cael eu sefydlu yn ystod Alpha. | 3 | 15 |
| 47 | Rhowch enghreifftiau o sut rydych chi wedi defnyddio meincnodi neu wersi gan sefydliadau cymharol yn briodol. | 2 | 10 |
| **Cyflawni wedi'i integreiddio** | | | |
| **Rhif y Gofyniad** | **Gofyniad** | **Pwysoli** | **Sgôr Uchafswm** |
| 48 | Disgrifiwch sut bydd eich dull diwylliannol a newid o weithredu'n cael ei integreiddio yng nghyflawniad technegol Alpha. | 3 | 15 |
| 49 | Eglurwch eich dull cyflawni a'ch llywodraethu ar gyfer yr agwedd hon ar gam Alpha. | 3 | 15 |
| 50 | Rhowch enghreifftiau o ble roedd integreiddio agos rhwng ffrydiau gwaith technegol a diwylliannol yn hanfodol i lwyddiant. | 3 | 15 |

## 19. Rhestr wirio o ddogfennau ymateb i'w dychwelyd

17.1 Ymatebwch i bob un o'r gofynion a nodir yn adran 18 erbyn 22ain Chwefror 2026, gan ddefnyddio'r templedi ymateb a ddarperir gyda'r gwahoddiad i dendro hwn.

17.2 Mae'r tabl canlynol yn crynhoi'r dogfennau y dylai tendrwyr eu cwblhau a'u dychwelyd.

| Teitl y ddogfen | Erbyn pryd? | Gwybodaeth ychwanegol |
|---|---|---|
| Gofynion y Prosiect – templed ymateb | 22ain Chwefror 2026 | |

| | | |
|---|---|---|
| Masnachol – templed ymateb | 22ain Chwefror 2026 | |
| Ffurflen y Tendr | 22ain Chwefror 2026 | |